

Termau Gramadegol *Grammatical terms***Ymarfer 1**

Tanlinellwch yr enwau yn y brawddegau hyn.

Mae ffeil Dafydd ar y bwrdd tu ôl i'r dderbynfa.

Rwy wedi symud i mewn i'r swyddfa newydd.

Ef yw'r arbenigwr ar y pwnc.

Mae gennym ddwy broblem: y ddyled a'r bobl sy'n gweithio yn y lle hwn.

Ysgrifennwch yr enwau benywaidd.

_____	_____	_____
_____	_____	_____

Ysgrifennwch luosogion pob enw yn y brawddegau uchod.

Ymarfer 2

a. Termiau gramadegol/Rhannau ymadrodd

Dewiswch y rhan ymadrodd priodol o'r rhestr a'i hysgrifennu gyferbyn â'r frawddeg sy'n cynnwys enghraifft/enghreiffiau (wedi'u hamlygu) ohonynt.

berf arddodiad ansoddair adferf cysylltair berfenw rhagenw y fannod

e.e. Mae hi'n **garedig** iawn. ansoddair

Maent yn symud **yn gyflym** iawn.

Beth yw enw'r fenyw sy'n eistedd yn **y** gadair fawr?

Mae e **ar** y llawr, **yn** y gornel.

Safodd **ac** edrych drwy'r ffenest **ond** ni welodd neb.

Safodd ac edrych drwy'r ffenest ond **ni welodd** neb.

Mae'r llun yn dda ond dyw e ddim cystal â **hwn**.

Rwy'n hoffi **rhedeg** a **darllen**, ond dim ar yr un pryd.

Mae e'n ddyn **pwysig** ac mae e'n **amyneddgar** iawn.

b. Goddrych/Gwrthrych

Rhowch gylch o gwmpas **y goddrych** yn y brawddegau isod.

Prynon nhw ddigon o fwyd i bara am bythefnos.

Cafodd e frechdan gaws i ginio.

Yn ôl y rheolau, caiff pawb doriad am hanner awr wedi deuddeg.

Gwelodd Miriam a Rwth long fawr yn gadael y porthladd.

Rhowch gylch o gwmpas **y gwrthrych** yn y brawddegau isod. Defnyddir yr un brawddegau â'r ymarfer uchod.

Prynon nhw ddigon o fwyd i bara am bythefnos.

Cafodd e frechdan gaws i ginio.

Yn ôl y rheolau, caiff y staff i gyd doriad am hanner awr wedi deuddeg.

Gwelodd Miriam a Rwth long fawr yn gadael y porthladd.

Cyflwyno cefndir personol

1. Pwy oedd yr athro ysgol a gafodd y dylanwad mwyaf arnoch chi? Pam?
2. Os ydych chi'n gweithio, pa agweddau ar eich gwaith rydych chi'n eu mwynhau fwyaf ac yn eu mwynhau leiaf?
3. Os ydych chi wedi ymddeol, beth oedd y peth mwyaf anodd am wneud hynny? Os ydych chi'n gweithio, ydych chi'n edrych ymlaen at ymddeol? Pam?
4. Ydych chi'n dda mewn cyfweiliadau? Pa un oedd y cyfweiliad mwyaf anodd i chi ei gael erioed?
5. Pa un oedd y swydd gyntaf i chi ei chael erioed? Siaradwch am y profiad.
6. Sut mae technoleg wedi newid eich gwaith neu'ch bywyd dros y blynyddoedd diwethaf?
7. Sut deithiwr ydych chi? Pa mor bell rydych chi wedi teithio? Ydych chi'n teithio oherwydd eich swydd?
8. Sut ydych chi'n treulio'ch Nadolig chi fel arfer? Sut mae hynny wedi newid dros y blynyddoedd?
9. Ydych chi'n darllen papur newydd? Pam y papur hwnnw? Os nad ydych chi'n darllen papur newydd, pam?
10. Ydych chi'n gwybod rhywbeth am eich coeden achau? Siaradwch am wreiddiau eich teulu chi.

Trafod y dasg

1. Beth sy'n anodd am siarad yn gyhoeddus neu o flaen grŵp?
2. Beth sy'n gallu gwneud siarad o flaen pobl yn haws?
3. Ydych chi'n addasu'ch iaith yn ôl y gynulleidfa neu nifer y bobl sy'n gwrando? Sut?

* Daw'r dasg hon o **Ffeil Hyfedredd CBAC**.

Dim ond dau air sy'n achosi'r treigladr trwynol:

Y rhagenw personol - **fy** a'r arddodiad - **yn** (*in*)

Dim ond geiriau sy'n dechrau â'r 6 llythyren **P T C B D G** sy'n gallu treiglo'n drwynol ar ôl y ddau air uchod.

Cynhyrchu'r synau

1. **B D G** Yn symud o flaen y geg i'r cefn:

Mae **B** yn cael ei chynhyrchu trwy anadlu allan a defnyddio'r gwefusau.

Mae **D** yn cael ei chynhyrchu trwy anadlu allan a defnyddio blaen y tafod yn erbyn cefn y dannedd blaen uchaf.

Mae **G** yn cael ei chynhyrchu trwy anadlu allan a defnyddio cefn y tafod yn erbyn cefn to'r geg.

Maent i gyd yn cael eu cynhyrchu â **llais**, h.y. Maent yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio'r laryncs.

i cheir '**h**' pan gân nhw eu treiglo'n drwynol.

	B	>	M		D	>	N		G	>	Ng
e.e.	bag	>	fy mag		dant	>	fy nant		gardd	>	fy ngardd

2. **P T C** Yn symud o flaen y geg i'r cefn:

Mae **P** yn cael ei chynhyrchu trwy anadlu allan a defnyddio'r gwefusau.

Mae **T** yn cael ei chynhyrchu trwy anadlu allan a defnyddio blaen y tafod yn erbyn cefn y dannedd blaen uchaf.

Mae **C** yn cael ei chynhyrchu trwy anadlu allan a defnyddio cefn y tafod yn erbyn cefn to'r geg.

Maent i gyd yn '**ddi-lais**', hynny yw, maen nhw'n cael eu ffurfio â'r union yr un rhannau o'r geg â BDG ond ag anadl yn unig heb ddefnyddio'r 'laryncs'.

Maent yn union yr un treigladau â BDG ond ceir **h** ym mhob un o'r tair llythyren hyn pan gân nhw eu treiglo'n drwynol.

	P	>	Mh		T	>	Nh		C	>	Ngh
e.e.	pen	>	fy mhen		tad	>	fy nhad		cath	>	fy nghath

â llais dim **h**

Tr. Trwynol

di-lais + **h**

Tr.Trwynol

B anadl + gwefusau + laryncs	-	M	P anadl + gwefusau	-	Mh
D anadl + blaen y tafod + laryncs	-	N	T anadl + blaen y tafod	-	Nh
G anadl + cefn y tafod + laryncs	-	Ng	C anadl + cefn y tafod	-	Ngh

Mae'r treigladau hefyd yn cael eu cynhyrchu gan yr un rhannau o'r geg â'r synau gwreiddiol, e.e.

B anadl + gwefusau + laryncs > **M** anadl + gwefusau + laryncs, a.y.b.

*Mae'r awyr yn dianc trwy'r trwyn yn lle'r geg yn y treigladau sy'n cynnwys '**h**'.

Rhagenwau personol - fy

'Fy' sy'n cael ei ddefnyddio mewn cywair ffurfiol, ond ar lafar mae'n amrywio.

Yn y gogledd mae 'fy' yn fwy cyffredin. Caiff 'fy' ei ddilyn gan dreigladd trwynol.

Yn y de mae 'yn' yn gyffredin ar lafar. Caiff 'yn' ei ddilyn gan dreigladd meddal, e.e. **yn fam**, **yn dad**.

*Ni ddefnyddir ail ran y rhagenw personol (i) yn y cywair ffurfiol oni bai bod angen pwysleisio perchnogaeth, e.e. fy mam, fy nhad (**nid** fy mam **i**, fy nhad **i**)

Ymarfer

Rhowch 'fy' o flaen y geiriau hyn:

e.e. gradd fy ngradd

papur

cyfrifiadur

tiwtor

arian

dant

barn

gliniadur

pamffledyn

cyfrifoldebau

Tasg

Mae crwt un ar bymtheg oed yn wynebu cosb mewn llys am iddo ddwyn ceir a'u gyrru'n ddiofal. Mae ei swyddog prawf am iddo ysgrifennu rhesymau a all esbonio ei ymddygiad.

Chi yw'r swyddog prawf. Newidiwch eiriau'r crwt i iaith ffurfiol.

O'dd **yn dad** heb waith ers sbel. O'dd **yn fam** yn treulio'i hamser yn y clwb. Ac wedyn o'dd **yn chwaer** mas yn caru bob nos. Wel o'n i yn y tŷ **ar ben yn hunan** ag o'n i'n *bored*. Odd **yn dad-cu** wedi rhoi arian i fi brynu beic, ond ro'dd rhywun wedi dwyn **yn feic i** wythnos ar ôl i fi'i brynu fe. Wel, o'n i mas gyda'n **ffrindie**, ac wedyn gwelon ni'n **feic i** a rhywun arno fe, yn mynd ffŵl sbîd. Wel o'dd car ar yr heol, y dyn wedi mynd i'r siop a gadel yr allwedd ynddo fe. Wel do'dd dim dewis 'da fi. Gyda'n **anadl** yn **yn ddwrn**, neidies i mew gyrres i ffwl pelt, wel chi'n gwbod y gweddill. Gwelodd plismon fi, a ches i'n **ddal**.

Yr arddodiad 'yn'

Ceir yn union yr un chwe threigladd ag a geir ar ôl 'fy' ond rhaid i'r 'yn' cyfateb i ran gyntaf y treigladd sy'n ei ddilyn,

e.e. yn + Caerdydd (*in Cardiff*) C > Ngh Yng Nghaerdydd a.y.b.

* Dalier sylw, os bydd y gair sy'n dilyn yr arddodiad 'yn' yn dechrau â 'm', rhaid newid yr 'n' yn 'yn' i 'm',

e.e. yn + Machynlleth > ym Machynlleth

Ymarferion 'yn'

Rhowch 'yn' o flaen yr enwau lleoedd hyn a'u treiglo os bydd eisiau:

e.e. Caerfyrddin yng Nghaerfyrddin

Treforys	_____	Caergybi	_____
Bargoed	_____	Garnant	_____
Pontardawe	_____	Abernant	_____
Dafen	_____	Meidrim	_____

Cyfieithwch yr ymadroddion a ganlyn, gan ddefnyddio'r treigladd trwynol ar ôl 'fy' ac 'yn':

In my tutor's lecture

In my brother's car

In the middle of town

In my friend's window

In my partner's house

In the committee meeting

In my sister's bag

In my manager's data

On my own

In Siân's dictionary

In my father's friend's house/

In the house of my father's friend